## PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 20 Hydref 2020

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Alun Roberts, J A Roberts a Bryan Owen.<br><br>Aelod Cyfetholedig : Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Arweinydd y Cyngor – Y Cynghorydd Llinos M Huws<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones – Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant;<br>Y Cynghorydd Richard Dew – Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd,<br>Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Datblygu Economaidd a Phrosiectau Mawr,<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS – Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Y Cynghorydd Robin Williams – Aelod Portffolio Cyllid. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro),<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Lle (Dros Dro),<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad (GM),<br>Rheolwr Sgriwtini,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Bethan Roberts (Archwilio Cymru) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies a Nicola Roberts.<br>Mr Dyfed Jones – Aelod Cyfetholedig,<br>Mrs Llio Johnson – Aelod Cyfetholedig.<br><br>Y Cynghorydd Ieuan Williams – Dirprwy Arweinydd y Cyngor |

---

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yn un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror, 2020 (nad oeddent eisoes wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor);
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2020
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi, 2020 (Arbennig).

## 3 STRATEGAETH ATALIOL CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (dros dro) a oedd yn rhoi trosolwg o'r Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Gorfforaethol a'r amserlen ar gyfer ei gweithredu.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor mai diben y strategaeth yw cynorthwyo pobl i gael ansawdd bywyd gwell. Diffinnir gweithredu Ataliol fel mabwysiadu dulliau sy'n ychwanegu at ymwneud defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau i sicrhau gwell canlyniadau a chyfrannu'n sylweddol at wneud y defnydd gorau posib o arian ac asedau eraill. Mae gweithredu fel hyn yn helpu i ddileu dyblygu a gwastraff, gan leihau'n sylweddol galw o'r system yn y tymor hwy. Mae'n hanfodol parhau i ddatblygu cysylltiadau cryfach tu fewn i'r Cyngor a gyda phartneriaid, cymunedau a phreswylwyr er mwyn canfod ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleol.

Adroddodd y Prif Swyddog Datblygu (Gwasanaethau Tai) fod gan Atal ac Ymyrraeth Gynnar rôl hanfodol i'w chwarae wrth leihau'r galw ar ddarpariaeth statudol, rheng flaen, a thrwy hynny leihau costau a sicrhau fod pob dinesydd, gan gynnwys rhai o'r dinasyddion mwyaf bregus, yn derbyn ymyraethau amserol i ddiwallu eu hanghenion amrywiol. Bydd y Strategaeth yn canolbwyntio ar ddull gweithredu ar draws yr Awdurdod, fel yr amlinellir yn y Cynllun Gweithredu, a bydd yn cael ei weithredu ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cyngor er mwyn cyflawni'r 3 nod craidd corfforaethol fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Ychwanegodd fod angen dull corfforaethol a pherchnogaeth o'r Strategaeth Ataliol, sy'n cynnwys cyllid ac amser staff ar draws holl adrannau'r Cyngor, os am gyflawni'r Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar yn llawn. Bydd ymrwymiad ariannol yn cael ei nodi yn ystod y 18 mis i ddwy flynedd nesaf wrth i'r anghenion a blaenoriaethau ddod yn amlycach.

Wrth ystyried yr adroddiad, codwyd y cwestiynau a ganlyn gan y Pwyllgor:-

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch oblygiadau ariannol y Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Gorfforaethol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 na fydd Llywodraeth Cymru'n darparu arian ychwanegol ond mai pwrpas y Strategaeth yw arbed pwysau ariannol pellach ar

wasanaethau cyhoeddus. Bydd angen rhoi rhaglen buddsoddi i arbed mewn lle i gychwyn y broses fydd yn creu arbedion yn yr hirdymor ac efallai na ddaw buddion y Strategaeth i'r amlwg am nifer o flynyddoedd;

- Cyfeiriwyd at y dulliau seiliedig ar asedau a sefydlwyd yn ardal Seiriol ac sydd wedi llwyddo i feithrin hunanddibyniaeth a gwytnwch yn hytrach na dibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Gofynnwyd a fyddai modd rhoi enghreifftiau i'r Pwyllgor. Dywedodd y Pennaeth Tai fod grŵp gweithredol ar waith yn ardal Seiriol sy'n cynnwys y cynllun 'Tro Da' i gasglu presgripsiynau, siopa ac ymateb i anghenion eraill pobl fregus yn yr ardal;
- Gofynnwyd pa risgiau posib sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y ddibyniaeth ar grantiau yn risg mewn perthynas â'r Strategaeth hon a bod pryderon ynghylch ariannu cynllun o'r fath yn y dyfodol. Fodd bynnag, nododd fod modd cael cymorth drwy bartneriaeth allanol gyda chynllun fel hwn, yn arbennig gan y trydydd sector. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro) fod y profiad a gafwyd yn ystod y chwe mis diwethaf o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 wedi amlygu'r gwytnwch sy'n bodoli mewn cymunedau lleol o ran cefnogi pobl sydd angen cymorth. Roedd yn ystyried bod angen cryfhau'r gwaith a wnaed ar lefel gorfforaethol gyda'r trydydd sector a thrwy hynny ehangu'r gwasanaethau a ddarperir;
- Cyfeiriwyd at gymorth iechyd meddwl dan y cynllun I CAN i wella iechyd a llesiant pobl ar draws Gogledd Cymru sydd â phroblemau iechyd meddwl ac a arweinir gan bobl sydd â phrofiad personol o broblemau iechyd meddwl. Gofynnwyd pa mor llwyddiannus yw'r prosiect hwn, o ystyried y cynnydd yn nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, yn arbennig yn ystod y pandemig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros Dro) fod adolygiad o'r prosiect yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a nododd y gallai gyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Pwyllgor Gwaith fod y Strategaeth Ataliol ac Ymyrraeth Gynnar Gorfforaethol yn cael ei chymeradwyo.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

**4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2019/20**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2019/20 i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad, y mae gofyn statudol ar yr Awdurdod ei gyhoeddi, yn darparu adolygiad o'r canlynol:-

- cynnydd yr Awdurdod yn erbyn ei Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2019/20, fel yr amlinellir dan y 3 amcan blaenoriaeth (fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 1.3 yr adroddiad);
- ei berfformiad cyffredinol, gan gynnwys perfformiad a seilir ar ddangosyddion cenedlaethol (mesurau atebolrwydd cyhoeddus – PAM) a DPA lleol.

Amlygodd Arweinydd y Cyngor nifer o gyflawniadau o dan y 3 amcan allweddol wrth gydnabod hefyd y gellir gwneud cynnydd pellach mewn perthynas â pherfformiad mewn rhai meysydd. Cyfeiriodd at rai o gyflawniadau'r Cyngor, megis adnewyddu Llawr y Dref er mwyn darparu cartrefi cyfforddus ynghyd ag agor dau

fflat hyfforddi ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Cyfeiriodd yr Arweinydd at nifer o gyflawniadau eraill hefyd, fel y'u nodir yn yr adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad fod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol wedi cael ei wella a'i gryfhau drwy gynnwys astudiaethau achos yn y ddogfen sy'n darparu tystiolaeth ac yn rhoi sicrwydd ynghylch yr effaith y mae'r gwaith dydd i ddydd yn ei gael ar unigolion penodol a chymunedau yn gyffredinol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a chodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu yn sgil y pandemig Covid-19. Gofynnwyd i ba raddau mae'r pandemig wedi effeithio ar berfformiad y Cyngor ac a oes angen i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau a'i arferion gwaith ar gyfer 2020/21. Dywedodd Arweinydd y Cyngor na fu modd gorffen gwaith cynnal a chadw ar dai cymdeithasol o fewn yr amserlen ofynnol ac y bu oedi o ran gosod eiddo oherwydd cyfyngiadau mynediad o ganlyniad i'r pandemig.
- Gofynnwyd am y cyfleoedd swyddi posib yn deillio o Fargen Dwf Gogledd Cymru. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y cyflwynwyd sesiwn friffio i Aelodau Etholedig ynghylch materion llywodraethiant yn ymwneud â'r Bwrdd Uchelgais yn ddiweddar. Os deuir i gytundeb erbyn diwedd y flwyddyn hon, bydd modd i gynllun Morlais symud yn ei flaen gan mai hwn yw'r prosiect mwyaf aeddfed yn y fargen dwf. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y cyflwynir adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ynghylch Cytundeb Llywodraethiant 2 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Nododd y bydd nifer o swyddi'n deillio o brosiectau bid twf pan fyddant yn weithredol. Bydd angen rhoi strategaeth gaffael mewn lle mewn perthynas â'r strategaeth ariannol i sicrhau fod y gadwyn gyflenwi'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig;
- Roedd Aelodau o'r farn fod angen dynodi gogledd yr ynys yn Barth Menter er mwyn gallu denu grantiau i gynyddu cyflogaeth yn yr ardal. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod gwaith wedi cael ei wneud i ddenu swyddi i ogledd yr ynys. Defnyddiwyd arian grant gan yr NDA i ddarparu grantiau i fusnesau bach yn yr ardal a bydd cais grant arall am ragor o arian yn cael ei gyflwyno i'r NDA y flwyddyn nesaf. Bydd uchafswm y grant ar gyfer pob busnes yn cael ei godi i £7,500. Yn ddiweddar, mae Cyngor Tref Amlwch wedi trafod dynodi ardal Amlwch yn Barth Menter ac mae angen i Lywodraeth Cymru gefnogi gogledd yr ynys wedi i ansicrwydd godi'n ddiweddar ynghylch cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Portffolio Datblygu Economaidd a Phrosiectau Mawr fod dynodi Amlwch yn Barth Menter yn flaenoriaeth gan y bydd yn caniatáu i safleoedd yn yr ardal gael eu datblygu, ond mae angen i Lywodraeth Cymru roi cymorth ariannol i'r ardal er mwyn datblygu prosiectau posib yn yr ardal;
- Gofynnwyd am effaith ariannol y pandemig ar yr Awdurdod ac a fydd Llywodraeth Cymru'n digolledu'r Cyngor am yr arian a gollwyd. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian i wneud yn iawn am golledion mewn rhai meysydd, megis incwm meysydd parcio a chanolfannau hamdden. Bydd pobl yn colli eu swyddi oherwydd y pandemig yn cael effaith ar y Cyngor gan y byddant yn ei chael yn anodd talu'r Dreth Gyngor. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod cais am £800k wedi cael ei gyflwyno am incwm a gollwyd yn Chwarter 1 a bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r cais. Ni chyflwynwyd y cais am Chwarter 2 eto ond rhagwelir y bydd

y swm yn is nag yn Chwarter 1 gan fod gwasanaethau'r Cyngor wedi ailagor ac yn cynhyrchu incwm;

- Cyfeiriwyd at y broses o lunio cynllun adfer i fynd i'r afael ag adferiad economaidd yn dilyn Covid-19 ac y bydd gwaith partneriaeth yn hanfodol yn y cyswllt hwn. Gofynnwyd a fyddai'r Awdurdod yn gallu rhoi cefnogaeth strategol i Gynghorau Tref er budd cymunedau ar draws Ynys Môn. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod bwriad i ailgychwyn cynnal y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned er mwyn rhannu gwybodaeth a phryderon gyda chymunedau lleol.

**Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cyhoeddi fersiwn terfynol o'r Adroddiad Perfformiad 2019/20 erbyn y dyddiad statudol ar ddiwedd mis Hydref a bod swyddogion yn cwblhau hyn mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio fel y gellir ei gyhoeddi fel rhan o bapurau'r Cyngor.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd blaen raglen waith y Pwyllgor i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y blaen raglen waith ar gyfer 2020/21**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.**

**GWEITHREDU : Fel y nodir uchod.**

**Y CYNGHORYDD ALED M JONES**
**CADEIRYDD**